

Rhaglen Trefniadau ar gyfer Plant

Gorchymyn Monitro Cyswllt

Mae Paragraff 15.5 Cyfarwyddyd Ymarfer 12B - Rhaglen Trefniadau ar gyfer Plant, yn cadarnhau "lle mae angen cyfranogiad gweithredol new fonitro", y bydd y llys o bosibl yn ystyried gwneud:

Gorchymyn Monitro Cyswllt

Prif elfennau'r gorchymyn hwn yw:


- Bod Cyngorydd Llys Teulu / Gweithiwr Cymdeithasol Llys Teulu ar gael i fonitro cydymffurfiad â'r Gorchymyn Cyswllt.
- Bod y Gorchymyn yn parhau i fod mewn grym am hyd at 12 mis.
- Gall y Gorchymyn bennu pwy, ac ym mha fodd y dylai'r partion weithio â'r Cyngorydd Llys Teulu / Gweithiwr Cymdeithasol Llys Teulu yn ystod oes y Gorchymyn.
- Caiff y Cyngorydd Llys Teulu / Gweithiwr Cymdeithasol Llys Teulu ysgrifennu adroddiad i'r llys os nad oes cydymffurfiad â'r Gorchymyn a darparu cyngor ynglŷn a ddylid newid neu ryddhau'r Gorchymyn.

Sefyllfa'r plentyn yw prif ystyriaeth y llys wrth wneud Gorchymyn Terfynol. Mae hyn yn cynnwys pan fo trefniadau cyswllt yn cael eu hystyried yn rhan o Orchymyn Trefniadau ar gyfer Plant a hefyd o ran y penderfyniad i wneud Gorchymyn Monitro. Mae'n rhaid, felly, i Orchymyn Monitro weithredu er lles pennaf y plentyn.

Swyddogaeth CAFCASS Cymru mewn cysylltiad â Gorchymyn Monitro yw gwylio hynt y cyswllt yn ystod oes y Gorchymyn.

Pan fo'r llys yn ystyried gwneud Gorchymyn Monitro, neu wedi gwneud un, dylai nodi'r hyn y gall CAFCASS Cymru ei ddarparu a'r hyn na all ei ddarparu yn rhan o'i swyddogaeth yn hyn o beth:

- Mae CAFCASS Cymru yn darparu gwasanaeth gweithredol o ddydd Llun i ddydd Gwener ac ni ddylid disgwyl y bydd y Cyngorydd Llys Teulu / Gweithiwr Cymdeithasol Llys Teulu yn monitro nac yn arsylwi cyswllt y tu allan i oriau gwaith arferol.



- Nid yw CAFCASS Cymru'n goruchwyllo, arsylwi nac yn hwyluso cyswllt er dibenion Gorchymyn Monitro.
- Ni fydd CAFCASS Cymru'n gyfrifol am wneud unrhyw drefniadau ar gyfer cyswllt (bydd y trefniadau wedi cael eu hamlinellu mewn Gorchymyn cyn neu ar yr un pryd ag y gwneir Gorchymyn Monitro).
- Bydd y Cynghorydd Llys Teulu / Gweithiwr Cymdeithasol Llys Teulu yn cysylltu â'r partion ynglŷn â hynt unrhyw drefniadau cyswllt. Bydd hyn fel arfer yn cael ei wneud dros y ffôn a bydd yn digwydd oddeutu unwaith y mis yn ystod oes y Gorchymyn.
- Ni fydd angen i'r Cynghorydd Llys Teulu / Gweithiwr Cymdeithasol Llys Teulu weld nac ymweld â'r plentyn, ac ni fydd ychwaith angen iddo/iddi wneud 'asesiad' o'r sefyllfa.
- Dylai fod yn glir na fydd Cynghorydd Llys Teulu / Gweithiwr Cymdeithasol Llys Teulu ar gael i "gyngori, rhoi cymorth a bod yn gyfaill" ac na fydd ar gael ychwaith i ddarparu "cefnogaeth". Swyddogaeth y Cynghorydd Llys Teulu / Gweithiwr Cymdeithasol Llys Teulu yw gwirio i ba raddau y cydymffurfiwyd ag unrhyw Orchymyn a wnaed.
- Os Gorchmynnir nhw, neu pan fo'n briodol (hynny yw os na chydymffurfir â'r Gorchymyn) bydd y Cynghorydd Llys Teulu / Gweithiwr Cymdeithasol Llys Teulu yn darparu adroddiad i'r llys.
- Ni fydd y Cynghorydd Llys Teulu / Gweithiwr Cymdeithasol Llys Teulu yn gyfrifol am "atgyweirio" neu "ail-adeiladu" trefniadau sydd wedi methu. Swyddogaeth y Cynghorydd Llys Teulu / Gweithiwr Cymdeithasol Llys Teulu yw hysbysu'r llys drwy gyfrwng adroddiad pan na chydymffurfir â'r Gorchymyn.

Bydd CAFCASS Cymru bob amser ar gael petai'r llys yn dymuno ymgynghori â CAFCASS Cymru cyn gwneud Gorchymyn Monitro Cyswllt. Dylai unrhyw Orchymyn Monitro amlinellu'r rhesymau dros wneud Gorchymyn o'r fath.

